OFFERYNNAU STATUDOL

# 2015 Rhif (Cy. )

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

## Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi'r personau sydd wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Disgrifir y cyrff a'r swyddi yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Nid yw'r Gorchymyn hwn yn cynnwys rhestr ddiffiniol o'r swyddi ac aelodaethau sy'n anghymhwyso (gweler yn arbennig adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu'r Gorchymyn blaenorol a wnaed yn 2010.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2015 Rhif (Cy. )

## Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

## Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *** |
| *Yn dod i rym* | *** |

Yn Llys Palas Buckingham y *** dydd o ***

Yn bresennol,

Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines yn y Cyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 16(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**), cafodd drafft o'r Gorchymyn hwn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adran 16(1) a (5) o'r Ddeddf honno, yn ôl cyngor a chyda chyngor Ei Chyfrin Gyngor, orchymyn fel a ganlyn:

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 a daw i rym ar [ ].

### Dynodi swyddi sy'n anghymhwyso

**2.** Mae'r swyddi a ddisgrifir yn yr Atodlen wedi eu dynodi'n swyddi sy'n anghymhwyso deiliaid y swyddi hynny rhag bod yn aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**1**) 2006 p. 32.

**Dirymu Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2010**

**3.** Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2010(**1**) wedi ei ddirymu.

*[Enw]*
Clerc y Cyfrin Gyngor

(**1**) O.S. 2010/2969.

# ATODLEN

## Swyddi sy'n anghymhwyso’r deiliaid rhag bod yn aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

**Erthygl 2**

| | |
|---|---|
| Amgueddfa Genedlaethol Cymru | Y Bwrdd Ymddiriedolwyr a benodwyd gan Weinidogion Cymru |
| Yr Archwilydd Achosion Annibynnol dros yr Adran Gwaith a Phensiynau | Yr Archwilydd Achosion Annibynnol |
| Yr Asiantaeth Safonau Bwyd | Yr holl aelodau |
| Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd | Yr holl aelodau |
| Yr Awdurdod Ffrwythloni ac Embryoleg Dynol | Yr holl aelodau |
| Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Yr holl aelodau |
| Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain | Yr holl aelodau |
| Awdurdod Iechyd Arbennig sy’n cyflawni swyddogaethau yn rhannol neu yn gyfan gwbl mewn cysylltiad â Chymru | Yr holl aelodau nad ydynt hefyd yn gyflogeion |
| Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol | Yr holl aelodau |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru | Yr holl aelodau |
| Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Yr holl aelodau |
| Awdurdod y Marchnadoedd Nwy a Thrydan | Yr holl aelodau |
| Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol | Yr holl aelodau |

| | |
|---|---|
| Bwrdd Canolwyr Meddygol | Yr holl aelodau a benodwyd gan Weinidogion Cymru(**1**) |
| Bwrdd Cynghori ar Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru | Yr holl aelodau |
| Y Bwrdd Cynghori ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | Y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd |
| Bwrdd Cynghorol Cymru ar Ddatblygu Diwydiannol | Yr holl aelodau |
| Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal yng Nghymru | Yr holl aelodau nad ydynt hefyd yn gyflogeion |
| Y Bwrdd Strategaeth Technoleg a adwaenir fel Innovate UK | Yr holl aelodau a'r Prif Weithredwr |
| Y Bwrdd Ystadegau a sefydlwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007(**2**) | Yr holl aelodau |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | Y Comisiynwyr |
| Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu | Yr holl aelodau |
| Y Comisiwn Etholiadol | Yr holl aelodau a staff |
| Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru | Y Prif Weithredwr a'r holl aelodau |
| Y Comisiwn Ffiniau i Gymru | Y Comisiynwyr |
| Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau | Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, neu Gyfarwyddwr neu Gomisiynydd y Comisiwn hwnnw a benodwyd gan Brif Weinidog Cymru |
| Comisiwn y Gwasanaeth Sifil | Prif Gomisiynydd y Gwasanaeth Sifil a'r holl Gomisiynwyr |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru | |
| Comisiynydd Heddlu a Throseddu fel y'i sefydlwyd gan adran 1 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb | |

(**1**) *Gweler* paragraff 3 o Atodiad 2 i'r Cynllun yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1072 (Cy. 110)) a pharagraff 3 o Atodlen 5 i'r Cynllun yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1073 (Cy. 111)).

(**2**) 2007 p. 18.

| | |
|---|---|
| Cymdeithasol 2011, ac unrhyw Ddirprwy a benodir gan y Comisiynydd o dan adran 18 o'r Ddeddf honno | |
| Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus | |
| Comisiynydd Plant Cymru | Y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | Y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd |
| Comisiynydd y Gymraeg | Comisiynydd y Gymraeg, Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg ac aelodau Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg |
| Y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth | |
| Corfforaeth Deledu Channel Four | Yr holl aelodau |
| Corfforaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol dros Gynilion Cyflogaeth | Yr holl Aelod-Ymddiriedolwyr |
| Cwmni Cyhoeddus Cyfyngedig Cyllid Cymru neu unrhyw is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Cwmni Cyhoeddus Cyfyngedig Cyllid Cymru | Yr holl Gyfarwyddwr |
| Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur | Yr holl aelodau |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Y Prif Weithredwr, Y Cadeirydd ac aelodau |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Yr holl aelodau |
| Cyngor Chwaraeon Cymru a adwaenir fel Chwaraeon Cymru | Yr holl aelodau |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Yr holl aelodau, ac eithrio aelod sydd hefyd yn gyflogai i'r Cyngor |
| Cyngor Gofal Cymru | Yr holl aelodau |
| Y Cyngor Prydeinig | Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr |
| Cyngor y Gweithlu Addysg | Yr holl aelodau |

| | |
|---|---|
| Dyfarnwr Annibynnol Awdurdodau Lleol Cymru(**1**) | |
| Y Gronfa Diogelu Pensiynau | Yr holl aelodau a'r Ombwdsmon ar gyfer Bwrdd y Gronfa Diogelu Pensiynau a benodwyd o dan adran 209 o Ddeddf Pensiynau 2004(**2**) ac unrhyw ddirprwy i'r Ombwdsmon hwnnw a benodwyd o dan adran 210 o'r Ddeddf honno |
| Y Gronfa Loteri Fawr | Yr holl aelodau a benodwyd o dan baragraff 1 o Atodlen 4A i Ddeddf y Loteri Genedlaethol Etc. 1993(**3**) neu holl aelodau pwyllgor a sefydlwyd o dan baragraff 7(1)(b) o'r Atodlen honno |
| Y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau | Y Cyfarwyddwyr |
| Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu | Holl aelodau'r Cyngor |
| Y Gwasanaeth Tân ac Achub | Arolygydd neu Arolygydd Cynorthwyol a benodwyd o dan adran 28 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 |
| Y Gweinyddwr Annibynnol Cwynion Dŵr Daear a benodwyd o dan adran 21 o Ddeddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993 a pharagraff 27 o Atodlen 7 iddi(**4**) | |
| Hybu Cig Cymru | Yr holl aelodau |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Y Bwrdd Ymddiriedolwyr a benodwyd gan |

(**1**) Adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42). Gwnaed diwygiadau perthnasol i adran 3 o'r Ddeddf gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p. 28), adrannau 202(1)(a), (b), (c) a (d) a 241 a Rhan 15 o Atodlen 18 i'r Ddeddf honno; Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (p. 20), adran 30(1) a (3)(c), adran 146(1) a Rhan 1 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno. Cyfeirir at y person a benodwyd felly yn Ddyfarnwr Annibynnol Awdurdodau Lleol Cymru.

(**2**) 2004 p. 35. Bu diwygiadau i adran 210 o'r Ddeddf hon, nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**3**) 1993 p. 39.

(**4**) 1993 p. 42. Bu diwygiadau i baragraff 27 o Atodlen 7 i'r Ddeddf hon, nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

| | |
|---|---|
| | Weinidogion Cymru |
| Yr Ombwdsmon Pensiynau a benodwyd o dan adran 145 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993 ac unrhyw ddirprwy i'r Ombwdsmon hwnnw a benodwyd o dan adran 145A o'r Ddeddf honno | |
| Y Panel Annibynnol ar gyfer Cwynion am Wasanaethau Cymdeithasol | Yr holl aelodau |
| Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol | Yr holl aelodau |
| Panel Dyfarnu Cymru | Yr holl aelodau |
| Person sy'n dal swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**), a hynny mewn:<br>(a) awdurdod lleol yng Nghymru, o fewn ystyr y Rhan honno,<br>(b) Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru; | |
| Prif Arolygydd ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | |
| Y Pwyllgor Cynghori ar Bathogenau Peryglus | Yr holl aelodau |
| Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru | Yr holl aelodau |
| Y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys | Y Cadeirydd |
| Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Y Cadeirydd |
| Pwyllgorau asesu rhenti ar gyfer ardal neu ardaloedd y mae pob rhan ohoni neu ohonynt yng Nghymru | Holl aelodau panel a sefydlwyd o dan Atodlen 10 i Ddeddf Rhenti 1977(**2**) |

(**1**) 1989 p. 42.
(**2**) 1977 p. 42. Bu diwygiadau i Atodlen 10 i'r Ddeddf hon, nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

| | |
|---|---|
| Y Rheoleiddiwr Pensiynau | Yr holl aelodau ac aelodau'r pwyllgorau a sefydlwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau o dan adran 9 o Ddeddf Pensiynau 2004(**1**) |
| Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol | |
| Y Sefydliad Rheoli Morol | Yr holl aelodau |
| Sianel Pedwar Cymru | Yr holl aelodau |
| Student Loans Company Limited | Yr holl aelodau a'r Prif Weithredwr |
| Swyddfa Archwilio Cymru | Yr holl staff a'r archwilwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru neu Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Y Swyddfa Gyfathrebiadau | Yr holl aelodau |
| Swyddog Ardystio ac unrhyw Swyddog Ardystio Cynorthwyol a chanddo swyddogaethau o dan Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992(**2**) | Swyddog Ardystio ac unrhyw Swyddog Ardystio Cynorthwyol |
| Swyddog canlyniadau ar gyfer un o etholaethau neu un o ranbarthau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru | |
| Tribiwnlys a gyfansoddwyd o dan adran 27 o Ddeddf Addysg 2005(**3**) ac Atodlen 3 iddi | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru | Yr holl aelodau |
| Y Tribiwnlys Haen Gyntaf | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlys Prisio Cymru | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru | Yr holl aelodau |

(**1**) 2004 p. 35. Sefydlwyd y Rheoleiddiwr Pensiynau gan adran 1 o'r Ddeddf hon.
(**2**) 1992 p. 52.
(**3**) 2005 p. 18. Gwnaed diwygiadau i Atodlen 3 i'r Ddeddf hon, nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn..

| | |
|---|---|
| Tribiwnlys y cyfeirir ato ym mharagraff 10 o Atodlen 26 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlys y Gymraeg | Yr holl aelodau |
| Yr Uwch Dribiwnlys | Yr holl aelodau |
| Ymddiriedolaeth y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig | Yr holl aelodau |
| Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol y mae pob un o'i hysbytai, neu ei chyfleusterau eraill, neu rai ohonynt, wedi eu lleoli yng Nghymru | Y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Anweithredol |

(**1**) 1998 p. 31. Gwnaed diwygiadau i baragraff 10(2) o Atodlen 26 i'r Ddeddf hon gan adran 53 o Ddeddf Addysg 2005 a pharagraffau 8, 16(1) a (2) o Ran 2 o Atodlen 7 iddi.